CIWB

**Tasg 3**

# Rasys hir

Mae Ras Nos Galan yn 5 cilomedr.

Sawl milltir ydy hyn?

Dyma rasys hir eraill.  Llenwch y bylchau.

| **Milltiroedd** | **Cilomedrau** |
|---|---|
| Marathon: 26.2 milltir | |
| | Ras 25 cilomedr |
| Hanner marathon: 13.1 milltir | |
| | Ras 20 cilomedr |
| Ras 9.3 milltir | |
| | Ras 10 cilomedr |

2. Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i greu ras hir (dros 5 cilomedr) yn eich ardal achos rydych chi eisiau codi arian at achos da.

a. Rhaid i chi feddwl am:

- Y cwrs (**O ble i ble?**)
- **Pa mor hir** ydy'r cwrs?  (Defnyddiwch fap Arolwg Ordnans i weithio allan pa mor hir ydy'r ras.)
- **Pryd** mae'r ras? **Faint o'r gloch** mae'r ras?
- Oes **thema**?
- **Enw**'r ras
- Beth ydy'r **achos da**?
- **Sut** ydych chi'n mynd i godi arian? (e.e. mae pobl yn mynd i noddi'r rhedwyr efallai neu oes rhaid i'r rhedwyr dalu ffi?)
- Oes **bwyd** a **diod** ar hyd y cwrs? Pa fath?
- Beth ydy'r **wobr**?

Siaradwch am y syniadau yma mewn grŵp ac ysgrifennwch nodiadau.
Mae help ar y dudalen nesaf.

| Geirfa | |
|---|---|
| cwrs | course |
| Arolwg Ordnans | Ordnance Survey |
| thema | theme |
| noddi | to sponsor |
| ffi | fee |

I siarad am y syniadau – ewch drwy'r pwyntiau bwled, e.e.

| | |
|---|---|
| • Y cwrs | Beth am ddechrau yn ...?<br>Beth am orffen yn ...? |
| • Pa mor hir ydy'r cwrs? | Pa mor bell ydy ... o ...?<br>Mae'r ras yma'n ... cilomedr / ... milltir. |
| • Pryd mae'r ras? | Beth am ddydd ...?<br>Beth am ... (dyddiad)?<br>Beth am ddechrau am ... o'r gloch a gorffen am ... o'r gloch? |
| • Oes thema? | Beth am ...?<br>Dw i eisiau ...<br>Hoffwn i gael thema ... |
| • Enw'r ras | Beth am ...?<br>Mae ... yn enw da. |
| • Beth ydy'r achos da? | Beth am ...?<br>Mae ... yn achos da iawn. |
| • Sut ydych chi'n mynd i godi arian? | Beth am ...?<br>Rhaid ... |
| • Oes bwyd a diod? | Beth am ... achos ...?<br>Mae pawb yn hoffi ...<br>Rhaid cael ... |
| • Beth ydy'r wobr? | Beth am ...?<br>Rhaid cael gwobr dda.<br>Dw i'n meddwl bod ... yn wobr dda. |

Dyma fwy o help i chi:

| Iaith trafod | |
|---|---|
| Beth am ...?<br>Syniad da (achos ....)<br>Na, dw i ddim yn meddwl (achos ...)<br><br>Yn fy marn i, ...<br>Dw i'n meddwl bod ... yn syniad da.<br><br>Wyt ti'n cytuno?<br>Ydych chi'n cytuno?<br>Dw i'n cytuno (achos ...)<br>Dw i ddim cytuno (achos ...)<br>Dw i'n anghytuno (achos ...) | What / How about ...?<br>Good idea (because ...)<br>No, I don't think so (because ...)<br><br>In my opinion, ...<br>I think that ... is a good idea.<br><br>Do you (sing.) agree?<br>Dw you (pl.) agree?<br>I agree (because ...)<br>I don't agree (because ...)<br>I disagree (because ...) |

b. Siaradwch â grŵp arall am y ras.

Ewch drwy'r pwyntiau bwled eto:

| | |
|---|---|
| • Y cwrs | Mae'r ras yn dechrau yn ... ac mae'n gorffen yn ... |
| • Pa mor hir ydy'r cwrs? | Mae'r ras yn ... cilomedr / ... milltir. |
| • Pryd mae'r ras? | Mae'r ras ar ... / ym mis ...<br>Mae'r ras yn dechrau am ... ac mae'n gorffen am ... |
| • Oes thema? | Thema'r ras ydy ... |
| • Enw'r ras | Enw'r ras ydy ... |
| • Beth ydy'r achos da? | Rydyn ni'n codi arian at ... |
| • Sut ydych chi'n mynd i godi arian? | Rydyn ni'n mynd i ... |
| • Oes bwyd a diod? | Mae ... (bwyd / diod) ar y ffordd. |
| • Beth ydy'r wobr? | Beth ydy'r wobr? Y wobr ydy ... |

CIWB

c. Ysgrifennwch erthygl am y ras ar gyfer papur bro.

Cofiwch ddweud:

- enw'r ras
- ble mae'r ras yn dechrau ac yn gorffen
- pa mor hir ydy'r ras
- pryd mae'r ras
- thema'r ras (os oes thema)
- yr achos da (oes rhaid i'r rhedwyr dalu ffi i redeg?)
- sut mae'r ras yn mynd i godi arian (e.e. rhaid i'r rhedwyr ...)
- oes bwyd a diod – ble
- y wobr
- unrhyw wybodaeth arall.

Trïwch berswadio pobl i ddod i redeg.

Hefyd, rhaid i chi wneud map o'r ras

Mae help ar y dudalen nesaf.

Dyma ychydig o help i chi.

| Ras ……………………………………………………………… | |
|---|---|
| Mae ras arbennig yn digwydd yn / ar ...<br><br>Mae'r ras yn dechrau yn ... ac yn gorffen yn ... – ... cilomedr.<br><br>Thema'r ras ydy ... ac felly, beth am wisgo fel ...<br><br>Mae'r ras yn codi arian at ...<br>Rhaid i'r rhedwyr ... | Mae (bwyd a diod) ar y ffordd, yn ...<br><br>Mae gwobr arbennig –<br><br>Mae actor enwog iawn yn dechrau'r ras, felly dewch i fwynhau'r hwyl. |

| Ras ……………………………………………………………… | |
|---|---|
| Bydd ras arbennig yn digwydd yn / ar ...<br><br>Bydd y ras yn dechrau yn ... ac yn gorffen yn ... – ... cilomedr.<br><br>Thema'r ras fydd ... ac felly, beth am wisgo fel ...<br><br>Bydd y ras yn codi arian at ...<br>Rhaid i'r rhedwyr ... | Bydd (bwyd a diod) ar y ffordd, yn ...<br><br>Bydd gwobr arbennig –<br><br>Bydd actor enwog iawn yn dechrau'r ras, felly dewch i fwynhau'r hwyl. |

| Geirfa | |
|---|---|
| erthygl | article |
| papur bro | community |
| papur newydd | newspaper |
| codi arian at | to raise money for |